



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Taflen gryno asesu effaith

Blaenoriaeth genedlaethol: Llythrennedd  Rhifedd  Tlodi

### Ffocws a/neu gwestiwn ymholi'r CDP: Ticiwch ✓

Oedd y CDP wedi rhoi sylw i'r ffocws/cwestiwn ymholi?

Yn llwyr  Gan fwyaf  Yn rhannol  Nac oedd

Pa lefel o effaith oedd y CDP wedi'i chael ar ansawdd a chysondeb y dysgu a'r addysgu yn gyffredinol?

Sylweddol  Cadarnhaol  Ychydig

## Gwerthuso effaith

### Rhowch fanylion am y grŵp o ddysgwyr a dargedir a'r mesur data a ddefnyddir.

Tracio data dysgwyr gwirioneddol gyda gwaelodlin ar ddechrau'r CDP a manylion am asesiadau diwedd cyfnod allweddol, profion darllen, ac ati, sgoriau Profion Dawn Gwybyddol, sgoriau cynnydd dal i fyny, SAS, ysgolion sgiliau, ac ati, yn unol â'r ffocws. Offer mesur meddwl os yw'n gymwys megis systemau graddio hunan-barch neu holiaduron agwedd a chymhellant.

Ar ôl dadansoddi'r data craidd o'r holl ysgolion, roedd ffocws y Gymuned Dysgu Proffesiynol (CDP) ar ddysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 (174 o ddisgyblion) yn agwedd Defnyddio Sgiliau Rhif y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (y Fframwaith). Teimlwyd mai unrhyw welliant ymhlith y dysgwyr yn yr elfen hon fyddai fwyaf tebygol o effeithio ar elfennau eraill y Fframwaith. Dyfeisiwyd pedwar prawf mewnol gennym, yn gysylltiedig ag agweddau penodol ar y Fframwaith. Cynhaliwyd y profion sylfaen ym mis Ionawr 2013 (4 mis cyn y profion cenedlaethol) a dadansoddwyd y canlyniadau fesul ysgol ac fel grŵp cyfan. Cafodd ffocws y CDP ei fireinio yn seiliedig ar y canfyddiadau, gan fod gwendid clir wedi'i ddatgan yn yr elfen 'ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb' (Prawf 2). Roedd y data prawf ynghylch 'defnyddio ffeithiau a pherthnasoedd rhifau' yn ymddangos yn gymharol gadarn. Mae'r elfen hon yn cynnwys agweddau ar gofio tablau lluosu a rhannu ac mae cysylltiad clir rhyngddi â'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn datblygu sgiliau yn yr agwedd 'ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb'. Yr her i'r grŵp oedd sicrhau bod dysgwyr yn gallu deall bod y sgiliau'n drosglwyddadwy; pryd i'w defnyddio; a sut i'w rhoi ar waith mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Cytunodd aelodau'r CDP i ganolbwyntio am 15 munud bob bore ar ymarfer 'ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb'. Cyfrannodd pob aelod o'r grŵp at ddatblygiad llyfrynnau addysgu Campfa Rhifau yn darparu ar gyfer y Gymraeg, Saesneg ac ADY. Casglwyd canlyniadau'r ymarferion dyddiol hyn yn wythnosol a'u cofnodi ar daenlen.

## 1. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y dysgwyr a dargedwyd gan y CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Asesiad athrawon a chanlyniadau profion cenedlaethol. Sgoriau gwerth ychwanegol FFT, Profion Dawn Gwybyddol. Agweddau at ddysgu, hunan-barch neu offer asesu dawn eraill. Data ymddygiad a phresenoldeb os yw'n berthnasol. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Roedd effaith arwyddocaol hefyd ar 26 o ddisgyblion ADY e.e.:

- Haneru rhifau 2 ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau; gwelliant o 22%
- Haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau; gwelliant o 29%
- Canfod meintiau ffracsiynol gan ddefnyddio ffeithiau tabl cyfarwydd; gwelliant o 28%

Roedd gwelliant ym mhob elfen ac eithrio adnabod ffracsiynau sy'n sawl rhan o rif cyfan; dirywiad o 6%

Gwelwyd % y cymhwysedd yn cynyddu 13% yn gyffredinol

Mae 14 allan o'r 26 yn gallu sicrhau mynediad i 25% o'r agweddau yn awr, o gymharu â 10 yn yr asesiad sylfaen

Mae 4 allan o'r 26 yn gallu defnyddio 50% o'r agweddau yn awr, o gymharu â 0 yn yr asesiad sylfaen

Hefyd, cyflwynodd aelodau'r CDP y sylwadau canlynol:

- Roedd y disgyblion mwy galluog wedi ymwneud â rhannu strategaethau gyda'r llai galluog ac roedd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddau grŵp.
- Roedd y disgyblion ADY yn teimlo bod strwythur ymarferion dyddiol y Gampfa Rhifau yn fuddiol.
- Roedd cadw sgôr dyddiol ac wythnosol wedi cymell y dysgwyr ac wedi creu ymdeimlad o gystadlu cyfeillgar.
- Roedd cyflymder y dysgwyr wedi gwella ac nid oeddent wedi cael anhawster cwblhau'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) o fewn yr amser penodol fel y grwpiau blwyddyn eraill.

Roedd hefyd effaith sylweddol ar 26 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, e.e.:

- Haneru rhifau 2 ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau; gwelliant o 22%
- Haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau; gwelliant o 29%
- Canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau; gwelliant o 28%

## 2. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar aelodau proffesiynol o'r CDP?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Safonau proffesiynol wedi cael sylw a'u datblygu gan y CDPau. Gallu i gynnal prosiect ymchwil ar raddfa fach. Gallu defnyddio offer asesu dawn. Effaith yn seiliedig ar y mesur a ddefnyddir.

Safonau Addysgu ac Arweiniad wedi'u datblygu gan y CDP – gallu cynnal prosiect ymchwil ar raddfa fechan a defnyddio adnoddau asesu doniau. Yr effaith yn seiliedig ar y dull o fesur a ddefnyddiwyd. Ysgol Gynradd Rhydfro – datblygodd fy ngallu i ddefnyddio a dadansoddi data a defnyddio taenlenni'n effeithiol, sicrhau dealltwriaeth ragorol a manwl o'r Fframwaith, gallu dangos tystiolaeth o 21 o'r Safon Arweiniad, o ganlyniad i'r CDP yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ymgorffori'r Fframwaith ar draws CA2, gwell am adnabod y disgyblion sydd angen ffocws ar rifedd. Ysgol Gynradd Rhos – Wedi dysgu llawer yn rhannu arferion da gydag ysgolion eraill, wedi bod yn rhan allweddol o ddull rhagweithiol o wella safonau rhifedd yn fy ysgol fy hun ac ysgolion eraill, gwell dealltwriaeth o ddulliau addysgu mewn ysgolion eraill wedi cael effaith ar fy addysgu – gallu defnyddio taenlen yn awr i greu adnoddau amrywiol, darlun llawer cliriach o gryfderau a gwendidau disgyblion a'u hanghenion. O ganlyniad i'r CDP, byddaf yn cynnal noson ymwybyddiaeth o rifedd i rieni, yn herio disgyblion mwy galluog a thalentog ymhellach, yn defnyddio data'r profion cenedlaethol i bennu targedau mathemateg mewn Cynlluniau Addysgu Unigol, ac yn gallu dangos tystiolaeth o 20 o'r safonau arweiniad. Bryncoch – Wedi newid y ffordd rwyf yn defnyddio data disgyblion ac yn cynllunio'r camau nesaf, wedi cydnabod pwysigrwydd ailadrodd mewn meithrin dealltwriaeth o rif, yn gallu dangos tystiolaeth o 2 o'r safonau arweiniad. Aelod o'r CDP, Rhian – yn gallu dangos tystiolaeth o 18 o'r safonau arweiniad, wedi datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol ag ysgolion eraill yn y gymuned ac wedi rhannu arferion da rhwng WM ac EM, wedi dylanwadu ar arferion addysgu athrawon eraill gyda fy natblygiad proffesiynol a'm harferion.

### 3. Pa effaith ydy gwaith y CDP wedi'i chael ar y gymuned ysgol ehangach?

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Yr ysgol gyfan yn mabwysiadu dulliau neu strategaethau yn dilyn casgliadau a barn y CDP. Rhieni yn cymryd rhan mewn gweithdai Llythrennedd neu Rifedd. Ymatebion gan athrawon a staff nad ydyn nhw'n y CDP. Ymatebion gan rieni/ofalwyr y dysgwyr a dargedir. Llywodraethwyr a grŵp rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'r ffocws a'r effaith. Beth yw gwaddol y CDP arbennig hon?

Fe wnaeth data profion Blynyddoedd 5 a 6 ganfod gwendid mewn ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau ar draws y clwstwr cynradd. Roedd hyn o gymorth i flaenoriaethu'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol gyfan ar gyfer elfen Rhifedd y Fframwaith. Gan ddefnyddio'r Fframwaith, adolygwyd archwiliad rhifedd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol a sylweddolwyd bod mwyafrif y gweithgareddau rhifedd a ganfuwyd fel rhan o gynlluniau gwaith naill ai'n rhoi sylw i elfennau Defnyddio Sgiliau Mesur neu Ddefnyddio Sgiliau Data. Rhoddwyd blaenoriaeth gennym yn ein cam gweithredu cyntaf i Ddefnyddio Sgiliau Rhif gan hyfforddi staff i ddeall yr agweddau a'u galluogi i ganfod ffyrdd ystyrion o ddatblygu gweithgareddau i roi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ffracsiynau, degolion, canrannau a chymarebau yn y pwnc. Mae strategaethau/canlyniadau'r CDP wedi cael eu rhannu'n eang ar draws yr awdurdod lleol a gyda Llywodraeth Cymru. Bydd effaith y rhannu hwn yn cael ei adolygu yn nes ymlaen. Ysgolion Cynradd – Bydd Crynodeb y CDP o'r Asesiad o Effaith yn cael ei rannu gyda chyrff llywodraethu pob ysgol. Sefydlwyd Gweithgor Rhifedd ar draws y clwstwr o ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 er mwyn:- sicrhau bod modd cynnal gwelliannau; creu adnoddau pellach i ddatblygu Campfa Rhifau ar draws elfennau eraill rhifedd; defnyddio adnoddau Numicon fel dull ymarferol o gefnogi rhifedd; parhau i rannu arferion da. Bydd HMS clwstwr yn ystod yr hydref yn canolbwyntio ar greu taenlenni data – ceir eisoes dystiolaeth o well defnydd o ddata manwl gywir. Mae gwell consensws ar draws y clwstwr a pharodrwydd i gydweithio'n agosach. Bydd Nosweithiau Rhieni gyda'u ffocws ar ddata'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

#### 4. Gwersi a ddysgwyd ac arsylwadau gweithredol allweddol.

Sylweddol

Cadarnhaol

Ychydig neu Ddim

Beth oedd wedi gweithio'n dda? Beth oedd heb weithioystal? Beth fyddech chi'n ei newid neu'n ei fireinio o ran rhedeg CDP newydd?

Mae'r canlyniadau'n dynodi bod mwyafrif yr arferion wedi gweithio'n dda iawn.

Mae'n rhaid gwella'r ddarpariaeth Mwy Galluog a Thalentog ar draws y clwstwr ac mae cynlluniau i wneud hynny drwy gyfrwng y Gweithgor Rhifedd.

Bydd y CDP, wrth weithio eleni ym maes Llythrennedd, yn ystyried yr anawsterau a gafwyd yn y CDP Rhifedd pan nad oedd yr aelod o'r CDP yn athro neu athrawes Blwyddyn 5/6. Profodd hyn yn rhwystr mewn rhai ysgolion gan nad oedd yr aelod CDP bob amser yn meithrin dealltwriaeth uniongyrchol o'r hyn oedd yn gweithio'n dda neu angen ei newid.

Mae'n rhaid rhannu data gyda rhieni a gallent fod wedi ymwneud â gweithio ar yr agweddau allweddol gartref a bod yn rhan o'r canlyniadau llwyddiannus.

Mae'n rhaid i aelodau'r CDP gyfarfod eu Penaethiaid unigol i roi adborth ar ôl y cyfarfodydd; hefyd, dylai fod yn eitem ar agenda pob ysgol sy'n cymryd rhan, fel cyfrwng i rannu arferion da.